Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru a Lloegr

## Mehefin 2013

## Cyflwyniad

Bwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr sy'n pennu cyfraddau cyflogau ac amrywiaeth o delerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer gweithwyr amaethyddol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r papur hwn yn gyflwyniad i swyddogaethau'r Bwrdd, ei hanes a'r adolygiadau diweddar a gynhaliwyd o'i swyddogaethau.

## Pwerau'r Bwrdd

Sefydlwyd Bwrdd Cyflogau Amaethyddol (AWB) Cymru a Lloegr fel y mae ar hyn o bryd o dan *Ddeddf Cyflogau Amaethyddol 1948* (Deddf 1948 wedi hyn).[1] Mae gan y Bwrdd y pŵer i gyhoeddi Gorchymyn sy'n cwmpasu cyfnod o 12 mis ac sy'n pennu isafswm cyflogau a thelerau ac amodau ar gyfer gweithwyr amaethyddol ar gyfer y cyfnod hwnnw. Cyhoeddir y Gorchymyn ym mis Hydref bob blwyddyn.

Yn wahanol i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, mae'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol yn pennu cyfraddau cyflog ar chwe gwahanol radd. Bydd y radd a ddefnyddir i dalu gweithiwr amaethyddol yn dibynnu ar lefelau sgiliau a chymwysterau'r gweithiwr. Ni all yr isafswm cyfraddau a bennir gan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol fod islaw'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Yn ogystal â phennu cyfraddau cyflog, mae Gorchymyn y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â thelerau ac amodau eraill ar gyfer gweithwyr amaethyddol gan gynnwys tâl gwyliau, tâl salwch, cyfraddau goramser a chyfraddau gwaith penodol, cyfraddau prentisiaeth, lwfans ci gwaith a lwfans profedigaeth.

Yn ôl Deddf 1948, rhaid i'r Bwrdd gyhoeddi ei gynigion ar gyfer y Gorchymyn a chaniatáu o leiaf 14 diwrnod i bobl gyflwyno sylwadau i'r Bwrdd ar gynnwys ei gynigion. Wedyn, rhaid i'r Bwrdd gyfarfod i ystyried unrhyw sylwadau a wnaed ac i benderfynu a ddylid diwygio'r Gorchymyn neu ei fabwysiadu fel y'i cynigiwyd.

## Aelodaeth y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cynnwys wyth cynrychiolydd wedi'u henwebu gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU), wyth gweithiwr gynrychiolydd wedi'u henwebu gan yr undeb llafur Unite a hyd at bum aelod annibynnol a gaiff eu penodi ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gan gynnwys Cadeirydd y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol.

## Gorfodi'r Gorchymyn

Mae Deddf 1948 yn caniatáu ar gyfer penodi swyddogion yng Nghymru a Lloegr i oruchwylio'r broses o orfodi Gorchymyn y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Yng Nghymru, swyddogion o Arolygiaeth Wledig Cymru sy'n gyfrifol am ymchwilio i unrhyw gwynion gan weithwyr. Dim ond mewn ymateb i gŵyn benodol y cynhelir ymchwiliad.

Lle yr ystyrir bod honiad o ddiffyg cydymffurfio yn ddilys, yna gall Tîm Cyflogau Amaethyddol (AWT) Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) y DU gymryd camau gorfodi ar ran gweithiwr os na fydd y cyflogwr yn cymryd camau i'w ad-dalu.

[1] ***Deddf Cyflogau Amaethyddol 1948*** Pennod47 11 a 12 Geo 6 [fel ar 26 Mehefin 2013]

## Gweithwyr a gwmpesir gan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol

Mae Deddf 1948 yn datgan bod unrhyw ddyn, menyw, bachgen neu ferch sy'n ymgymryd â gwaith amaethyddol yn cael ei gwmpasu gan ddarpariaethau Gorchymyn y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol.

Diffinnir amaethyddiaeth fel a ganlyn:

> including dairy-farming, the production of any consumable produce which is grown for sale or for consumption or other use for the purposes of a trade or business or of any other undertaking (whether carried on for profit or not), and the use of land as grazing, meadow or pasture land or orchard or osier land or woodland or for market gardens or nursery grounds.

## Hanes y Bwrdd

Gellir olrhain tarddiad yr isafswm cyflog amaethyddol yn y DU i *Ddeddf Cynhyrchu Grawn 1917*. Mewn ymateb i ofnau o ran prinder bwyd a llafur yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, cyflwynodd y Llywodraeth ar y pryd ddeddf yn nodi darpariaethau i warantu isafswm prisiau am rai cynhyrchion amaethyddol ai warantu isafswm cyflogau i weithwyr amaethyddol. Diddymwyd darpariaethau'r *Ddeddf Cynhyrchu Grawn* yn 1921 ynghyd â'r gofynion ar gyfer isafswm cyflog. Yn dilyn streiciau yn erbyn safonau byw dirywiol gweithwyr fferm, ailgyflwynodd *Deddf Cyflogau Amaethyddol (Rheoleiddio)* y syniad o gyfraddau cyflog statudol yn 1924.

Rhoddodd y Ddeddf hon y pwerau i bwyllgorau cyflogau sirol bennu cyfraddau cyflog ar gyfer eu priod siroedd gan ddyrannu swyddogaethau cynghori yn unig i'r bwrdd cenedlaethol.

Arweiniodd anghysondebau o ran lefelau cyflog a chamau gorfodi ledled Cymru a Lloegr at geisiadau i roi swyddogaethau i'r bwrdd cenedlaethol bennu isafswm cyflog cenedlaethol. Yn 1948, cyflwynodd Llywodraeth y DU *Ddeddf Cyflogau Amaethyddol 1948* a sefydlodd y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol fel y saif ar hyn o bryd. Fe'i sefydlwyd felly, fel bwrdd cenedlaethol â'r pwerau i bennu cyfraddau isafswm cyflog cenedlaethol a thelerau ac amodau cyflogaeth eraill ar gyfer gweithwyr amaethyddol.

## Adolygiadau diweddar o'r Bwrdd

Er bod nifer o bwyllgorau cyflog eraill wedi'u diddymu yn 1993 o dan y *Ddeddf Diwygio Undebau Llafur a Hawliau Cyflogaeth*[2], nid oedd y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn rhan o gwmpas y Ddeddf. Fodd bynnag, cwblhawyd adolygiad o'r gyfundrefn statudol ar gyfer isafswm cyflogau amaethyddol. Ar y pryd, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid cadw swyddogaethau'r Bwrdd.

Yn 1999, cynhaliodd Gweinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd y DU ac Adran Amaethyddiaeth Llywodraeth Cymru adolygiad, *The future rationale for statutory wage and other controls in agriculture and horticulture*.[3] Fel rhan o'r adolygiad, ystyriwyd swyddogaethau'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol a'r Pwyllgorau Cyflogau Amaethyddol.

Ym mis Gorffennaf 2010, cyhoeddodd Caroline Spellman, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd, y byddai'n ceisio dod i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru i ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol.[4]

---

[2] ***Deddf Diwygio Undebau Llafur a Hawliau Cyflogaeth 1993*** Pennod 19 [fel ar 26 Mehefin 2013]

[3] Y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ac Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Agricultural Pay and Conditions: The Future Rationale for Statutory Wage and Other Controls in Agriculture & Horticulture and the Operations of the Agricultural Wages Board and the Agricultural Wage Committees*, Rhagfyr 1999 (copi caled)

[4] Defra, Caroline Spellman, (yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig), ***Defra's arms length***

Ym mis Hydref 2012, cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) y DU ymgynghoriad ar ddyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru a Lloegr.[5] Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnodd Defra am sylwadau ar gynigion i ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol a chynnwys gweithwyr amaethyddol o fewn darpariaethau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Rheoliadau Oriau Gwaith. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2012 a chyhoeddodd Defra y byddai'n bwrw ati i ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol drwy'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio.

Ar 29 Ionawr 2013, pleidleisiodd y Cynulliad yn erbyn Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a fyddai wedi rhoi caniatâd i Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio mewn perthynas â diddymu Bwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr.[6]

Ar 31 Ionawr, cynhaliodd Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad sesiwn casglu tystiolaeth ar ddyfodol y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru.[7]

Aeth Senedd y DU ati hefyd i'w ystyried a chafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 25 Ebrill 2013. Mae Adran 72 o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 yn diddymu Bwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr. [8]

***bodies***, Datganiad Ysgrifenedig, 22 Gorffennaf 2010 [fel ar 26 Mehefin 2013]
[5] Defra, ***The future of the Agricultural Wages Board for England and Wales, Agricultural Wage Committee and Agricultural Dwelling House Advisory Committees England***, Hydref 2012 [fel ar 26 Mehefin 2013]
[6] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Agenda a Phenderfyniadau'r Cyfarfod Llawn ((109) v5)***, 29 Ionawr 2013 [fel ar 26 Mehefin 2013]
[7] Gellir gweld cyflwyniadau ysgrifenedig i'r sesiwn casglu tystiolaeth a chofnod y trafodion ar wefan Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd **yma.**
[8] ***Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013*** Pennod 24 [fel ar 26 Mehefin 2013]

Ar 1 Mai 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ddyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol a'r Pwyllgor Cynghori Anhedd-dai Amaethyddol yng Nghymru. [9] Gofynnodd yr ymgynghoriad am sylwadau rhanddeiliaid ar ddyfodol y cyrff yng Nghymru ac a ddylai Llywodraeth Cymru geisio cynnal eu swyddogaeth drwy ddulliau statudol neu anstatudol. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 26 Mehefin 2013.

Mae gan Lywodraeth Cymru eisoes bwerau dros y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol a'r Pwyllgor Cynghori Anhedd-dai Amaethyddol yng Nghymru.

## Asesu Effaith

Ni chyhoeddodd Llywodraeth Cymru asesiad effaith ar ei hymgynghoriad ar ddyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru ond cyhoeddodd Defra asesiad effaith ar ei hymgynghoriad.[10]

**Yn ôl Arolwg Amaethyddol a Garddwriaethol Cymru ym mis Mehefin 2012, mae 13,326 o weithwyr yng Nghymru (tua 11% o gyfanswm Cymru a Lloegr) y gallai'r penderfyniad i ddiddymu'r Bwrdd effeithio arnynt. Mae 6,758 o'r rhain yn weithwyr achlysurol.[11] Mae'r asesiad effaith cyffredinol yn seiliedig ar nifer y gweithwyr amaethyddol yng Nghymru a Lloegr, sef 122,700 yr oedd 42,405 o'u plith yn weithwyr achlysurol.**

Mae'r ffigurau Amcangyfrif Gorau yn asesiad effaith Defra yn nodi ar **sail Cymru a Lloegr dros gyfnod o ddeng mlynedd** y byddai gweithwyr amaethyddol yn debygol o golli £259 miliwn :

- £149 miliwn mewn taliadau cyflog;
- £4.4 miliwn mewn tâl salwch;
- £83.8 miliwn mewn gwyliau blynyddol.

[9] Llywodraeth Cymru, ***Dyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol a'r Pwyllgor Cynghori Anhedd-dai Amaethyddol yng Nghymru***, Mai 2013 [fel ar 26 Mehefin 2013]
[10] Defra, ***Abolition of the Agricultural Wages Board Impact Assessment***, 19 Rhagfyr 2012 [fel ar 26 Mehefin 2012]
[11] Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru, ***Arolwg Amaethyddol a Garddwrol, Mehefin 2012***, Tachwedd 2012 [fel ar 26 Mehefin 2013]

## Effaith gyfreithiol diddymu ar weithwyr presennol

Oni bai a hyd nes y bydd y partïon yn negodi telerau newydd, bydd cyflog ac amodau gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn parhau ar y lefel a bennwyd yng Ngorchymyn 2012, hyd yn oed ar ôl iddo ddod i ben ar 1af Hydref 2013. Mater o ran cyfraith contract yw hwn a chaiff ei atgyfnerthu hefyd gan ddarpariaethau cynilo yn *Neddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013*.[12]

Byddai ymdrech gan gyflogwr i orfodi newid i delerau contract, a fyddai'n rhoi'r cyflogai o dan anfantais, yn groes i'r contract a gallai hefyd arwain at hawliad am ddiswyddo annheg neu ddeongliadol. Yn yr un modd, gallai terfynu contractau presennol a'u cyfnewid am gontractau llai ffafriol arwain at hawliadau am ddiswyddo annheg, ar yr amod bod cyflogeion yn bodloni'r cyfnod cymhwyso gofynnol o ran cyflogaeth, sef blwyddyn ar gyfer gweithwyr cyn 6 Ebrill 2012, a dwy flynedd wedi hynny. Bydd rhaid i gyflogwyr hefyd ystyried deddfwriaeth cyflogaeth ehangach a'r potensial ar gyfer hawliadau gwahaniaethu os byddant yn talu cyfraddau gwahanol am yr un gwaith, heb gyfiawnhad gwrthrychol.

Felly, mae'n debygol mai gweithwyr newydd yn y sector, gweithwyr achlysurol a'r rheini ar gontractau byrdymor fydd yn profi'r effaith gyfreithiol fwyaf. Cydnabuwyd hyn yn asesiad o effaith Defra mewn perthynas â diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ac mae Defra o'r farn na fyddai pob gweithiwr achlysurol bellach yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn.

[12] ***Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013*** Pennod 24 [fel ar 26 Mehefin 2013]

## Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2012

Ceir manylion llawn y cyfraddau cyflog a'r telerau a'r amodau a nodir yn y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol ar wefan GOV.UK **yma**.

Yn 2012, y gyfradd cyflog ar gyfer gweithwyr amaethyddol Gradd 1 (isafswm cyflog) oedd £6.21 yr awr, dwy geiniog yn fwy na chyfradd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, sef £6.19 yr awr. Mae'r cyfraddau ar gyfer graddau dilynol yn cynyddu'n raddol hyd at £9.40 ar gyfer gweithiwr Gradd 6.

Mae darpariaethau'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol yn berthnasol i bob gweithiwr o oedran ysgol gorfodol neu'n hŷn. Ar gyfer gweithwyr o oedran ysgol gorfodol h.y. y rheini sy'n 16 oed neu'n iau, y gyfradd isafswm cyflog yw £3.11. Byddai pawb dros 16 oed yn cael cyflog Gradd 1 o leiaf. Dim ond i'r rheini dros oedran ysgol gorfodol y mae deddfwriaeth Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn berthnasol ac mae'n darparu gwahanol gyfraddau i'r rheini sy'n 16 ac 17 oed, 18 i 20 oed a thros 21 oed.

Mae'r gyfradd cyflog ar gyfer prentisiaid hefyd yn wahanol o dan y ddwy gyfundrefn. O dan Orchymyn 2012, byddai prentisiaid amaethyddol yn cael £3.57 yn ystod blwyddyn gyntaf eu prentisiaeth. Ar gyfer prentisiaid yn eu hail flwyddyn, bydd y swm yn codi i £3.68 ar gyfer prentisiaid 16 i 17 oed a £4.98 i'r rheini sy'n 18 i 20 oed a £6.21 i'r rheini sy'n 21 oed a throsodd. Yn ystod trydedd blwyddyn prentisiaeth, byddai pob prentis yn cael y cyflog Gradd 1. O dan yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, mae prentisiaid o dan 19 oed yn cael £2.65 neu yn ystod blwyddyn gyntaf eu prentisiaeth, gan godi i £4.98 ar gyfer y rheini dros 19 oed yn ystod ail flwyddyn prentisiaeth.

O ran gwyliau blynyddol, mae gweithwyr amaethyddol sy'n gweithio wythnos waith arferol yn cael 31 diwrnod ond mae gan weithwyr eraill yr hawl i o leiaf 28 diwrnod. Darperir uchafswm o 38 diwrnod i weithwyr amaethyddol sy'n gweithio mwy na chwe diwrnod yr wythnos ond ni wneir unrhyw ddarpariaeth ychwanegol o fewn deddfwriaeth i weithwyr eraill.

Mae'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol yn cynnwys cyfraddau penodol ar gyfer goramser ond ni wneir unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer goramser o dan yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

## Safbwynt Llywodraeth y DU

Yn ei hymgynghoriad yn 2012 ar ddyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, noda Llywodraeth y DU fod y Bwrdd yn deillio o oes pan oedd natur arunig ac ansymudol gweithwyr fferm yn golygu eu bod mewn sefyllfa fargeinio gymharol wan, nad yw bellach yn wir. Noda'r ddogfen ymgynghori:

> To **sum up**, the Agricultural Wages Board and agricultural minimum wage:
> -adds to the administrative and regulatory burden on farm businesses, which dissuades farmers from employing workers;
> -is no longer needed because of improved employment protection for all workers;
> -hinders the development of growth and opportunities within the industry;
> -inhibits the use of modern employment practices; and
> -restricts the ability of employers and workers to come to their own agreements.
> Therefore the Government believes it is in the interests of the future prosperity of the agriculture industry for the Agricultural Wages Board and agricultural minimum wage regime to be abolished.[13]

Mewn ymateb i ddadl ar ddyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Hydref 2012, datganodd David Heath, Gweinidog Gwladol y DU dros Amaethyddiaeth a Bwyd nad oedd o'r farn bod y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn faes lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli:

> It is clear that the matter is not a devolved one at the moment. The hon. Member for Ogmore looks askance—agriculture is devolved, but wage control is not. However, that does not stop us having a perfectly sensible dialogue with Welsh colleagues on the subject or stop them having a dialogue with the Wales Office on the constitutional issues.[14]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

Yn ei hymgynghoriad ar ddyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru, noda Llywodraeth Cymru:

> Bydd penderfyniad Llywodraeth y DU i ddiddymu Bwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr yn golygu y bydd gweithwyr amaethyddol Cymru'n dod o dan fframwaith rheoleiddio'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol o fis Hydref 2013 ymlaen. Dim ond rhan o'r amddiffyniad y mae'r Isafswm Cyflog Amaethyddol yn ei warantu i'r sector amaethyddol y bydd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn ei gynnig iddo. Efallai y bydd Llywodraethu Cymru'n hoffi cadw swyddogaethau'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru, naill ai drwy ddeddfwriaeth neu drwy sefydlu pwyllgor cynghori.[15]

[13] Defra, ***The Future of the Agricultural Wages Board for England and Wales, the Agricultural Wages Committee and the Agricultural Dwelling House Advisory Committee in England***, Hydref 2012 [fel ar 26 Mehefin 2012]

[14] ***HC Deb 16 Hydref 2012*** C23WH [fel ar 26 Mehefin 2013]

[15] Llywodraeth Cymru, ***Dyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol a'r Pwyllgor Cynghori Anhedd-dai Amaethyddol yng Nghymru***, Mai 2013 [fel ar 26 Mehefin 2013]

Mewn datganiad llafar i Gyfarfod Llawn y Cynulliad ar 30 Ebrill 2013, datganodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd:

> Er bod y Llywodraeth hon yn anghytuno'n gryf â chynigion Llywodraeth y DU i ddileu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru a Lloegr, rwyf, serch hynny, yn cydnabod ac yn parchu mandad Llywodraeth San Steffan i gyflwyno ei pholisïau ar gyfer amaethyddiaeth yn Lloegr. Er mwyn gwarchod y sector amaethyddol yng Nghymru, rwyf wedi gofyn ar sawl achlysur i gynlluniau gwreiddiol Llywodraeth y DU i ddiddymu'r Bwrdd o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 gynnwys darpariaethau i drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd i Weinidogion Cymru. Byddai hyn wedi darparu ateb pragmatig a fyddai'n galluogi'r ddwy Lywodraeth i ddilyn eu hagendâu polisi sy'n wahanol ond yn gwbl ddilys.
>
> Roeddwn yn siomedig dros ben pan ddewisodd Llywodraeth y DU, wedi hynny, ddefnyddio'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio yn lle Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 i gyflwyno darpariaethau i ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn fy marn i, nid oedd hyn yn ddim mwy na thacteg i osgoi'r rheidrwydd i gael caniatâd y Cynulliad ar gyfer y camau arfaethedig, fel y byddai wedi bod yn ofynnol o flaen llaw pe byddai Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 wedi cael ei defnyddio. Ni chafodd Llywodraeth Cymru wybod am y newid ymlaen llaw, newid a oedd yn dangos diffyg parch amlwg tuag at y setliad datganoli ac yn ei osgoi.[16]

[16] Llywodraeth Cymru, Alun Davies (Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd), ***Diddymu Cyrff Statudol Cysylltiedig y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol,*** (Datganiad Llafar), 30 Ebrill 2013, [fel ar 26 June 2013]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr, cysylltwch â **Nia Seaton** (**Nia.Seaton@Wales.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar **Ddyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru**.
- Tudalen Ymgynghori Defra ar **Ddyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol.**

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau ar** wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 13/1689**